Llawlyfr Presenoldeb
Attendance Handbook

Ysgol Pentreuchaf

GALLWN ROI DAU BETH PWYSIG I'N PLANT – UN YW GWREIDDIAU A'R LLALL YW ADENYDD

01758 750600 WWW.YSGOLPENTREUCHAF.ORG @YSGOLPENTREUCHAF @PENTREUCHAF

PAM FOD PRESENOLDEB YN BWYSIG?

Ystyrir bod presenoldeb rheolaidd yn bwysig iawn yn Ysgol Pentreuchaf. Hebddo, ofer fyddai ein holl ymdrechion i ddarparu addysg o safon uchel; os nad yw disgybl yn bresennol yn yr ysgol ni all ddysgu na chyrraedd ei wir botensial. Bydd plant nad ydynt yn yr ysgol yn colli addysg, cyfleoedd cymdeithasol a phrofiadau hanfodol i ddatblygu'n aelodau effeithiol o gymdeithas.

Mae llawer o rieni yn meddwl nad yw colli ambell ddiwrnod o'r ysgol yma ac acw yn gwneud llawer o niwed. Gall colli hyd yn oed gyfnod byr o amser o'r ysgol fod yn broblem. Efallai y bydd eich plentyn yn colli gwaith ac yn methu dal i fyny. Os oes bylchau yn eu gwybodaeth, byddant yn dioddef pan fydd yr asesiadau cenedlaethol yn cymryd lle. Mae eich plentyn yn dysgu mewn camau bychain sydd yn arwain at dasg estynedig neu gyfle asesu. Gall colli un cam arwain at fwlch pellach. Mae plant sy'n colli ysgol yn colli allan ar yr ochr gymdeithasol o bethau, sy'n effeithio ar eu gallu i wneud a chadw ffrindiau.

WHY IS ATTENDANCE IMPORTANT?

Regular attendance is considered very important at Ysgol Pentreuchaf. Without it, all our efforts to provide high quality education would be futile; if a pupil is not present at school he/she can not learn or reach their true potential. Children who are not in school are missing education, social opportunities and experiences essential to develop effective members of society.

Lots of people think that missing the odd day of school here and there can't do much harm. But even taking a small amount of time out can be a problem. Your child might lose work and not be able to catch up. If there are gaps in their knowledge, they will suffer when school assessments come around. Your child learns in small steps that leads to an extended or assessment task. Missing one step would lead to further gaps. Children who miss school are missing out on the social side of things, which affects their ability to make and keep friends.

ABSENOLDEBAU

Yn Ysgol Pentreuchaf, rydym yn ystyried presenoldeb a phrydlondeb yn bethau pwysig iawn er mwyn i'ch plentyn/plant fanteisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig bod y plant yma'n rheolaidd cyn 09.00 er mwyn cychwyn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon.

Rydym, wrth gwrs, yn deall bod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill yn achlysurol. Pan fo hyn yn digwydd, cysylltwch â'r ysgol CYN 09:15 drwy:

- ffonio 01758 750600
- adael neges ar y peiriant ateb
- lenwi Ffurflen Absenoldeb ar wefan yr ysgol neu
- ebostio swyddfa'r ysgol: pennaeth@pentreuchaf.ysgoliongwynedd.cymru

Os na fyddwn yn derbyn neges yn ein hysbysu o'r rheswm am absenoldeb eich plentyn, yna fe fydd rhywun o'r Swyddfa yn cysylltu gyda chi.

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw hysbysu'r athrawon o absenoldeb eich plentyn trwy Seesaw yn dderbyniol oherwydd mae'n bosibl na fydd yr athrawon yn gweld y neges tan unai'n hwyrach y diwrnod hwnnw neu hyd yn oed y diwrnod canlynol.

Pan mae presenoldeb afreolaidd disgybl yn achosi pryder gofynnir am gymorth Swyddog Lles Addysg.

Ychydig iawn o absenoldebau heb ganiatâd a geir yn yr ysgol. Ymdrechwn i barhau gyda'r drefn hon. Erbyn hyn rhaid i ysgolion, yn gyfreithiol, gadw cofnod o absenoldebau heb ganiatád – hynny yw:

- os na fydd yna reswm digonol dros yr absenoldeb
- os na fydd esboniad gan rieni neu warchodwyr am absenoldeb

ABSENCES

At Ysgol Pentreuchaf, we regard attendance and punctuality as very important aspects so as to enable your child/children to fully benefit from school life and education. It is important that the children arrive at school before 09.00 in order to commence another exciting day punctually.

Of course, we appreciate that children are ill or unable to attend school for other reasons, occasionally. On such occasions, please contact the school BEFORE 09:15 by:

- phoning the school 01758 750600
- leaving a message on the answering machine
- filling in an Absence Form on the school website or
- emailing the school office: pennaeth@pentreuchaf.ysgoliongwynedd.cymru

If we do not receive a message informing us of the reason for your child's absence, then someone from the School Office will contact you.

Please note that informing the teachers of your child's absence via Seesaw is not acceptable as the teachers may not see the message until later that day or even the following day.

When a pupil's irregular attendance gives cause for concern, the Educational Welfare Officer's support is sought.

There are very few absences without permission in our school and we aim to continue this trend. By now schools must, legally, keep a record of absences without permission – that is:

- if there is no sufficient reason for the absence
- if there is no explanation from parents or guardians for absence

GWYLIAU

Yr uchafswm y dylai plentyn golli ysgol oherwydd gwyliau teuluol yw 10 diwrnod mewn blwyddyn academaidd - a hynny mewn amgylchiadau eithriadol. Os ydych yn mynd ar wyliau, gwnewch yn siwr eich bod yn cysylltu gyda'r ysgol ac yn llenwi'r ffurflen gais sydd ar gael o'r Swyddfa neu ar wefan yr ysgol: http://www.ysgolpentreuchaf.org/

Byddwn yn dilyn canllawiau Cyngor Gwynedd ac yn nodi unrhyw ddyddiau gwyliau heibio'r 10 diwrnod fel 'Absennol heb Awdurdod' ar y gofrestr.

Er ein bod yn deall pam bod teuluoedd yn cymryd gwyliau yn ystod amser ysgol, hoffwn dynnu eich sylw at y ffeithiau isod:

HOLIDAYS

The maximum number of term time holidays a child should have during one academic year is 10 days - and that would be under exceptional circumstances. If you're going on holiday during term time, make sure to contact the school and fill in the 'Holiday Permission Form' from the Office or on our website: http://www.ysgolpentreuchaf.org/

We will be following Gwynedd Council's guidelines and registering any days beyond the allotted 10 as 'Absent without Permission' on the school's register.

Whilst we can understand why families take holidays during term time, we would like to draw your attention to the information below:

ABSENOLDEB | ABSENCES	CANRAN PRESENOLDEB | ATTENDANCE PERCENTAGE
10 diwrnod | 10 days (pythefnos | fortnight)	95%
19 diwrnod | 19 days (4 wythnos | 4 weeks)	90%
29 diwrnod | 29 days (6 wythnos | 6 weeks)	85%
38 diwrnod | 38 days (8 wythnos | 8 weeks)	80%
47 diwrnod | 47 days (10 wythnos | 10 weeks)	75%

PRYDLONEDEB

Yn Ysgol Pentreuchaf, rydym yn ystyried presenoldeb a phrydlondeb yn bethau pwysig iawn er mwyn i'ch plentyn/plant fanteisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol.

Hoffwn eich atgoffa bod disgwyl i BOB plentyn fod yn yr ysgol rhwng 08:50 a 09:00 y bore. Mae plant sy'n cyrraedd yn hwyr yn torri ar draws y dosbarth ac yn cymryd mwy o amser i setlo. Ar ben hyn, fe all bod yn hwyr gael effaith ar iechyd a lles eich plentyn gan nad yw'n cyrraedd yr y dosbarth yr un pryd a'u cyfoedion.

Rhaid i bob disgybl sy'n cyrraedd yn hwyr ddod drwy brif fynedfa'r ysgol er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod eu bod nhw wedi cyrraedd.

Rydym yn cadw cofnod o'r achlysuron pan fydd disgyblion yn hwyr. Pan fydd disgybl yn hwyr i'r ysgol ar nifer o achlysuron, mae'n achosi pryder ac mi fyddwn yn cysylltu gyda chi a'r Swyddog Lles lleol i wella'r sefyllfa.

CLWB BRECWAST

Nid oes goruchwyliaeth ar gyfer eich plentyn tan ar ôl 08:50. Os ydych am i'ch plentyn gyrraedd cyn yr amser hyn, bydd rhaid i chi gofrestru eich plentyn ar-lein i'r Clwb Brecwast sydd ar agor o 08:10 - 08:50. Bydd cost o £1 am ofal o 08:10 tan 08:30, ond nid oes cost am ofal ar ôl 8:30.

Rhaid cofrestru eich plentyn ar-lein i ddefnyddio'r Clwb Brecwast os yw eich plentyn yn cyrraedd rhwng 08:10 a 08:50.

AMSER YN HWYR POB DIWRNOD MEWN BLWYDDYN	CYFANSWM DROS BLWYDDYN
5 munud bob dydd	3 diwrnod
15 munud bob dydd	pythefnos
30 munud bob dydd	20 diwrnod

PUNCTUALITY

At Ysgol Pentreuchaf, we regard attendance and punctuality as very important aspects so as to enable your child/children to fully benefit from school life and education.

We would like to remind you that EVERY child is expected to be at school between 08:50 and 09:00 in the morning. Pupils that arrive late disrupts the class, takes longer to settle, and it can have an effect on their health and wellbeing as they don't arrive at the classroom at the same time as they're peers.

All pupils who are late must come through the main entrance door so that we know that they are accounted for.

We keep a record of when pupils arrive late. When a child is late on a number of occasions it is a cause for concern, and we'll be contacting you and the local Welfare Officer on how to improve the situation.

BREAKFAST CLUB

There is no supervision for your child until 08:50. If you're eager for your child to arrive earlier, you'll have to register your child to the school's Breakfast Club which is open from 08:10 - 08:50. A cost of £1 will be charged for care between 08:10 - 08:30, however, there's no cost for any child that arrives after 08:30.

Please register your child online to use the Breakfast Club if your child arrives between 08:10 - 08:50.

MINUTES LATE EVERY DAY IN A YEAR	TOTAL TIME IN A YEAR
5 minutes every day	3 days
15 minutes every day	2 weeks
30 minutes every day	20 days

SALWCH

Wrth gwrs, bydd adegau pan fydd eich plentyn yn colli ysgol am reswm da. Os oes angen amser i ffwrdd ar eich plentyn bydd angen i chi ofyn caniatâd yr ysgol o flaen llaw.
Os yw eich plentyn yn wirioneddol sâl yna, wrth gwrs, bydd angen iddynt aros adref. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol, cyn 09:15 gyda rheswm yr absenoldeb. Os ydych yn ansicr ynglŷn ag anfon eich plentyn i'r ysgol, cysylltwch â'ch meddyg neu siaradwch gyda swyddfa'r ysgol.

Apwyntiadau meddygol

Ceisiwch osgoi apwyntiadau meddygol yn ystod amser ysgol, neu ceisiwch eu trefnu mor agos at ddiwedd y diwrnod ysgol ag y bo modd. Yn naturiol, bydd yna adegau pan na fydd hyn yn bosibl, ond ceisiwch roi cymaint o rybudd ymlaen llaw ag sy'n bosibl i ni.

Profedigaethau

Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os oes profedigaeth yn y teulu - byddwn yn awyddus i sicrhau bod y staff a'r disgyblion yn gweithredu mewn modd sensitif gyda'ch plentyn pan fydd yn dychwelyd. Gall cwmni ffrindiau ac awyrgylch brysur ysgol fod yn llesol i ddisgyblion ar adegau anodd.

Ysgol neu adref?

Yn aml, bydd plentyn yn deffro yn y bore yn dweud eu bod yn teimlo'n sâl. Er ein bod yn annog plant i ddod i'r ysgol, hyd yn oed os ydynt yn teimlo ychydig yn sâl, nid ydym am i unrhyw blentyn sy'n wirioneddol sâl ddod i'r ysgol. Ceisiwch bob amser anfon eich plentyn i'r ysgol os ydynt ychydig yn ddihwyl, er enghraifft gyda trwyn yn rhedeg, cur yn eu pen, poen bol. Bydd yr ysgol bob amser yn cysylltu â chi os yw eich plentyn yn sâl a dyna pam ei bod yn hanfodol bwysig bod gennym eich manylion cyswllt cywir.

Fodd bynnag, peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol os oes ganddynt wres neu unrhyw salwch heintus megis brech yr ieir, y frech goch ac ati. Byddai cadarnhâd meddygol gan eich meddyg yn sicrhau bod absenoldeb eich plentyn yn cael ei awdurdodi. Os yw eich plentyn wedi bod yn taflu i fyny neu'n dioddef o ddolur rhydd, yna mae'n rhaid iddynt aros i ffwrdd o'r ysgol am 48 AWR o'r cyfnod olaf o salwch. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw unrhyw haint yn lledaenu drwy'r ysgol. Os ydych yn cael problemau cael eich plentyn i'r ysgol am resymau eraill, cysylltwch gyda'r ysgol mor fuan â phosib i ni allu eich cynorthwyo.

Gweler y tabl gan Iechyd Cyhoeddus Cymru am fwy o wybodaeth:

Cyfnod Gwahardd ar gyfer Heintiau Cyffredin

BETH SYDD DDIM YN DDERBYNIOL?

Penblwyddi

Dylai eich plentyn fynychu'r ysgol hyd yn oed os yw'n ddiwrnod ei ben-blwydd.

Siopa

Nid yw siopa, neu unrhyw weithgaredd tebyg, yn reswm i'ch plentyn beidio bod yn yr ysgol.

Mae yna 175 diwrnod di-ysgol mewn blwyddyn i dreulio gyda teulu, ymweliadau, gwyliau ac apwyntiadau.

ILLNESS

Of course, there will be times when your child has to miss school for a good reason. If your child needs time off you need to ask the school's permission as far in advance as possible.
If your child is genuinely ill then, of course, they will need to remain at home. Please contact the school office before 09.15 with a reason for absence. If you are unsure as to whether your child can attend school, please contact your doctor or speak to the school office.

Medical appointments

Try to avoid medical appointments during school time, or make them as close to the end of the school day as possible. Naturally there will be times when this isn't possible, but try to give us as much advance warning as possible.

Bereavements

Let us know as soon as possible if there's a bereavement in the family - we will want to make sure that the staff and pupils act sensitively with your child on his/her return. The company of friends and a busy environment could be beneficial to your child at these difficult times.

School or home?

Often a child will wake up in the morning saying that they feel unwell. Whilst we do encourage children to come to school even if they feel a little unwell we do not want any child who is genuinely ill to come to school. Always try to send your child to school if they are only a little under the weather for example with a runny nose, head-ache, tummy ache. The school will always contact you if your child is unwell which is why it is vitally important that we have your correct contact details.

However, please do not send your child to school if they have a temperature or any infectious illnesses like chicken pox, measles etc. Medical confirmation from your doctor will ensure your child's absence is authorised. If your child has been vomiting or is suffering from diarrhoea then they must stay away from school for 48 HOURS from the last bout of illness. This is to ensure that any infection does not spread through the school. If you're having difficulty getting your child to school for another reason, make sure you contact the school as soon as possible so we can assist you with any problems.

Please see the table from Public Health Wales for more information:

Exclusion Period for Common Infections

WHAT'S NOT ACCEPTABLE?

Birthdays

Your child should still attend school, even if it is their birthday.

Shopping

Shopping, or any other similar activity, is not a reason for your child to be away from school.

There are 175 non-school days a year to spend on family time, visits, holidays and appointments.

ABSENOLDEB HEB GANIATÂD

Mae'n bwysig i rieni sylweddoli bod gan yr ysgol hawl i wrthod caniatâd i rieni esgusodi eu plant o'r ysgol pe bai'r ysgol yn teimlo nad yw'r amgylchiadau yn eithriadol, neu eu bod tu hwnt i 10 diwrnod o wyliau.

Mae gan yr ysgol hawl i nodi 'Absenoldeb heb Ganiatâd' ar gofnod presenoldeb disgyblion sydd yn cael dros 20 sesiwn (nid oes rhaid iddynt fod yn ddilynol) o salwch mewn blwyddyn, oni bai ein bod yn cael ein argyhoeddi bod y plentyn yn haeddiannol sâl, er enghraifft gyda nodyn meddyg.

Mewn amgylchiadau o'r fath gall Swyddog Lles ymweld â rhieni, a gall rieni gael dirwy statudol petai'r Sir yn teimlo ei fod yn deilwng.

Rydym yn cydweithio'n agos gyda'r Awdurdod er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn mynychu'r ysgol yn ddyddiol. Cofiwch mae presenoldeb o 95% ac uwch sydd yn dderbyniol gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd.
Mae'n ofynnol bod yr ysgol yn cyfeirio unrhyw blentyn sydd â phresenoldeb o dan 85% (absenoldeb parhaus) at Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod Lleol.

UNAUTHORISED ABSENCE

It is important for parents to understand that the school has the right to refuse parents to take their children away from school if the request is deemed unworthy or is for more than 10 days of holidays.

The school has the right to give Unauthorised Absences to pupils who miss more than 20 sessions (they do not need to be consecutive) due to illness, unless we are convinced that the child is ill by means of doctor's note or prescription.

In circumstances such as this, a Welfare Officer could visit the parent, and it is possible for the County to give a fixed penalty fine if they feel it is appropriate.

We work closely with the Authority to ensure that all children attend school daily. Please remember that only attendance of 95% and above is considered acceptable by the Welsh Government and Gwynedd Council.
It is statutory that the school refers any child whose attendance falls below 85% (persistent absentee) to the Local Authority's Education Welfare Officer.

PRESENOLDEB 90% - Dim cystal ag y byddech yn ei feddwl!

Mae Presenoldeb o 90% yn golygu bod plentyn wedi methu hanner diwrnod bob wythnos.

- 1 blwyddyn ysgol + phresenoldeb o 90% = 4 wythnos o wersi wedi eu colli.
- 5 mlynedd o ysgol + phresenoldeb o 90% = hanner blwyddyn o wersi wedi eu colli.

90% ATTENDANCE - Not as good as you might think!

Attendance of 90% means that a child misses half a day every week.

- 1 school year + attendance of 90% = 4 weeks of lessons missed.
- 5 school years + attendance of 90% = half a year of lessons missed.

Cyfwerth â cholli sawl diwrnod ysgol mewn blwyddyn Equates to how many school days in a year	Presenoldeb Attendance	Ysgol Pentreuchaf
0	100%	Perffaith Perfect
4	98%	Trawiadol Impressive
7	96%	Da Good
9	95%	Bron yna Nearly there
11	94%	Angen gwella Needs improving
1 mis | 1 month	90%	Pryderon Concerns
2 fis | 2 months	80%	Pryderon mawr Serious concerns